OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1843

# Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

## RHAN 2

## CODI FFIOEDD O DAN RAN 5 O'R DDEDDF

**Isafswm incwm ar gyfer person y darperir gofal a chymorth amhreswyl iddo**

**12.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn diwallu anghenion A am ofal a chymorth, neu'n cynnig eu diwallu, rywfodd ac eithrio drwy ddarpariaeth o lety mewn cartref gofal.

(2) Rhaid i awdurdod lleol ddyfarnu na fyddai'n rhesymol ymarferol i A dalu unrhyw swm y byddai ei dalu yn gostwng incwm wythnosol net A islaw'r isafswm incwm a nodir yn y rheoliad hwn.

(3) Pan fo A yn cael budd-dal perthnasol, yr isafswm incwm yw—

(a) yr hawlogaeth wythnosol sylfaenol i'r budd-dal perthnasol y mae A yn ei gael ("yr hawlogaeth sylfaenol");

(b) swm o ddim llai na 35% o'r hawlogaeth honno ("y glustog");

(c) swm ychwanegol i ddigolledu A am wariant cysylltiedig ag anabledd, sef dim llai na 10% o'r hawlogaeth sylfaenol; a

(d) swm wythnosol cyfwerth ag unrhyw ffioedd unffurf a delir, neu sydd i'w talu, gan A, pa un ai am wasanaethau a ddarperir o dan Ran 4 o'r Ddeddf, neu am wasanaethau a ddarperir o dan adran 15 neu am gynhorthwy a ddarperir o dan adran 17 o'r Ddeddf.

(4) Pan nad yw A yn cael budd-dal perthnasol, yr isafswm incwm wythnosol yw—

(a) swm wythnosol yr hyn a asesir yn rhesymol gan yr awdurdod lleol fyddai hawlogaeth sylfaenol A i fudd-daliadau, gan ystyried oedran, amgylchiadau a lefel anabledd A ("yr amcangyfrif o'r hawlogaeth sylfaenol");

(b) swm o ddim llai na 35% o'r amcangyfrif o'r hawlogaeth sylfaenol ("y glustog");

(c) swm i ddigolledu A am wariant cysylltiedig ag anabledd, sef dim llai na 10% o'r amcangyfrif o'r hawlogaeth sylfaenol; a

(d) swm wythnosol cyfwerth ag unrhyw ffioedd unffurf a delir, neu sydd i'w talu, gan A, pa un ai am wasanaethau a ddarperir o dan Ran 4 o'r Ddeddf, neu am wasanaethau a ddarperir o dan adran 15 neu am gynhorthwy a ddarperir o dan adran 17 o'r Ddeddf.

(5) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n effeithio ar ddisgresiwn awdurdod lleol i gynyddu canran y glustog neu'r swm i ddigolledu am wariant cysylltiedig ag anabledd wrth gyfrifo'r isafswm incwm.